**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1335
Ein cyf/Our ref JH-/10468/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

20 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 6 Rhagfyr, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am fy nghyfarfod gyda Mencap Cymru. Cefais gyfarfod cadarnhaol iawn gyda Mencap ar 27 Tachwedd, lle buom yn trafod materion a godwyd yn y drafodaeth ar 23 Hydref.

Mae llawer o'r bobl sy'n dibynnu ar arian parod hefyd yn rhai sydd angen cymorth wyneb yn wyneb ar gyfer eu hanghenion bancio. Yn aml, dyma'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl oedrannus ac anabl, a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Mae opsiynau talu digidol yn unig heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer arian parod hefyd yn codi cwestiynau posibl o ran cydraddoldeb. Mae yna risg y gallai peidio â derbyn arian parod wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sydd â rhai nodweddion gwarchodedig. Trafodwyd hyn gan y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, ac mae'n bosibl y caiff ei nodi yn y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd ar y gweill.

Mae sefydlu'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a grewyd mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Drws Ar Glo, yn dangos y cynnydd pwysig rydym wedi'i wneud o ran gwrando ar bobl anabl a gweithio gyda nhw i gael gwared ar y rhwystrau y maent yn parhau i'w hwynebu bob dydd. Daeth deg gweithgor thematig y Tasglu â thros dri chant a hanner o randdeiliaid allanol ynghyd a thros ddau gant o arweinwyr polisi o bob rhan o'r llywodraeth i greu argymhellion o ansawdd.

Mae'r argymhellion hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl, a fydd yn cynnwys y deilliannau sydd eu hangen i greu newid cadarnhaol hirdymor i bobl anabl, gan roi'r lle canolog i'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ein gweledigaeth ar gyfer Cymru.

Bydd holl dimau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth, drwy weithredu'r camau a'r newidiadau y mae angen inni eu gweld. Bydd y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl yn destun ymgynghori ddechrau gwanwyn 2025.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod cynhwysiant ariannol yn fater cyfiawnder cymdeithasol allweddol ac wedi'i ddatganoli, mae gwasanaethau ariannol yn fater a gadwyd yn ôl. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a sefydliadau a ariennir gan y sector, e.e. LINK, i sicrhau bod rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar fynediad at beiriannau arian parod am ddim a mynediad at wasanaethau arian parod am ddim yn cael eu cynnal ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno canolfannau bancio ar y cyd ac yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i undebau credyd i gynnig gwasanaethau benthyca a chredyd egwyddorol yng nghymunedau Cymru.

Yn ogystal â chynnig awgrymiadau i Mencap ar sefydliadau y byddant am gysylltu â nhw efallai, cytunais yn y cyfarfod i gwrdd â Mencap eto yn y Flwyddyn Newydd, pryd y gallwn symud ymlaen o ran y materion amrywiol dan sylw. Rhennais nodyn ag Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet hefyd o gynnwys y cyfarfod er mwyn iddynt weld y materion a godwyd sy'n berthnasol i'w portffolio.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip